

CYPE(5)-24-19 - Papur i'w nodi 18

Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AC/AM
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/FM/2542/19

Lynne Neagle, AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

5 Awst 2019

SeneddCYPE@cynulliad.cymru

Annwyl Lynne,

Gwella canlyniadau ar gyfer plant

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 21 Mehefin.

Hoffwn nodi'n glir o'r dechrau: mae gormod o blant yn cael eu cymryd oddi ar eu teuluoedd yng Nghymru, ac mae'r sefyllfa wedi gwaethygu yn gyson a di-baid, flwyddyn ar ôl blwyddyn, ers dechrau'r 1990au. Nid fy marn bersonol neu fympwyol i yw hyn. Dyma farn Llywyddion olynol y Llysoedd Teulu.

Yn 2016, daeth y Llywydd ar y pryd, Syr James Munby, i'r casgliad y byddai'r system yn wynebu argyfwng amlwg yn fuan, heb unrhyw strategaeth ar gyfer mynd i'r afael ag argyfwng o'r fath. Nid wyf i yn fodlon inni fod heb strategaeth yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, daeth Syr James i'r casgliad bod y cynnydd cyson a di-baid yn nifer a chyfran y plant sy'n cael eu rhoi mewn gofal cyhoeddus yn gysylltiedig ag ymddygiad awdurdodau lleol. Dywedodd ei bod yn rhaid eu bod yn chwarae rhan sylweddol yn y cynnydd mewn achosion a ddaw gerbron y Llysoedd Teulu. Daeth i'r casgliad bod yr amrywiad eang yn y cynnydd mewn cyfraddau rhwng awdurdodau lleol yn cyfiawnhau craffu ar sut y maent yn cyflawni eu dyletswyddau.

Mae'r safbwyntiau hyn wedi'u hadleisio gan olynydd Syr James, sef Syr Andrew McFarlane. Mae ei gasgliad ef union yr un fath â'm casgliad innau, sy'n fy ngwneud yn benderfynol y dylem weithredu i fynd i'r afael â'r anghyfiawnder hwn yng Nghymru. Dywed Syr Andrew:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

'We have reached a stage where the threshold for obtaining a public law court order is noticeably low, whereas the threshold for a family being able to access specialist support services in the community is conversely very high'.

Mae hyn felly yn fater hawliau plant – yr hawl i gael eich cefnogi i fyw gyda'ch teulu eich hun, yn hytrach na chael eich tynnu oddi ar y teulu.

Ni ddylem chwaith dderbyn nad yw'n bosibl gwneud unrhyw beth i symud y system i'r cyfeiriad hwnnw. Ar ddechrau'r degawd hwn, rhoddodd Castell-nedd Port Talbot gyfran uwch o blant mewn gofal cyhoeddus nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru a Lloegr. Heddiw, ar ôl gweithredu ar y cyd, mae'r patrwm wedi'i wrthdroi. Mae eu cyfraddau plant sy'n derbyn gofal wedi lleihau cymaint â thraean rhwng 2013 a 2018. Mae awdurdodau lleol eraill, fel Casnewydd, wedi llwyddo dros gyfnod hir i ddarparu gwasanaeth sydd wedi mynd yn groes i'r tueddiad a fu mor gryf yng Nghymru a Lloegr.

Rwy'n cydnabod y gall newid i ddulliau atal fod yn heriol i rai. I helpu gyda'r broses, y llynedd gwnaethom ddarparu £9m ychwanegol o gyllid rheolaidd i gefnogi gweithgareddau ataliol ac eleni rydym wedi rhoi £15m ychwanegol i fyrddau partneriaeth rhanbarthol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac i atal yr angen am ofal. Mae cronfeydd eraill ar gael i awdurdodau lleol wneud cais am arian ohonynt, fel y Gronfa Buddsoddi i Arbed a'r Gronfa Trawsnewid. Gall awdurdodau ddysgu o arferion da ei gilydd. Rhoddodd swyddogion Llywodraeth Cymru gipolwg o'r gwaith hwn yn yr ymchwiliad gwerthfawrogl a gynhaliwyd fel rhan o lif gwaith atal Grŵp Cyngori'r Gweinidog.

Yn fy maniffesto i arwain, dim ond un cynnig wnes i ar gyfer targedau newydd yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru. Y cynnig hwnnw oedd ceisio gwireddu'r uchelgais a oedd eisoes wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru i sefydlogi ac yna lleihau cyfran y plant yng Nghymru sy'n cael eu cymryd oddi ar eu teuluoedd, eu lleoli y tu allan i'r sir, a'u lleoli y tu allan i'r wlad. Fy rheswm dros wneud hyn oedd nad oedd pum mlynedd, a rhagor, o anogaeth, cyngor, adroddiadau arbenigol, cyllid ar gyfer arweinyddiaeth arbenigol a chymau gweithredu eraill wedi llwyddo i gael yr effaith y dymunwn ei gweld. Nid diben targedau yw peryglu diogelwch plant, ond yn hytrach canolbwyntio ymdrechion awdurdodau lleol ar dasg gyffredin. Rwy'n croesawu'r ffaith bod 18 o'r 22 awdurdod lleol wedi cytuno ar gynlluniau a fydd yn awr yn helpu i wneud gwahaniaeth ymarferol. Rwy'n bryderus bod rhai o'r awdurdodau hynny sydd heb gytuno ar gynlluniau eto ymysg y rhai hynny sydd fwyaf o angen gweithredu ac, mewn rhai achosion, mae'n ymddangos bod ganddynt fwy o ddiddordeb mewn troi'r drafodaeth oddi wrth eu cyfrifoldebau eu hunain na chymryd rhan yn y gwaith o ddatrys y problemau sylfaenol bwysig sydd yn y fantol.

Rwy'n edrych ymlaen at gael cefnogaeth barhaus eich pwyllgor i gyflawni'n huchelgais gyffredin o sicrhau lles gorau plant a'u teuluoedd yng Nghymru.

Yn gywir



MARK DRAKEFORD